**CYNGOR BRO MORGANNWG**

**CYNLLUN PRYNU GWYLIAU BLYNYDDOL**

## 1. CYFLWYNIAD A DIBEN

1.1. Fel rhan o'r ymrwymiad parhaus i helpu cyflogeion i gydbwyso eu hymrwymiadau gwaith â'u bywyd cartref, mae'r Cyngor yn gweithredu cynllun sy'n galluogi cyflogeion i brynu gwyliau blynyddol ychwanegol. Nid yw'r cynllun hwn yn disodli neu'n cyfyngu ar y defnydd o unrhyw arferion absenoldeb di-dâl presennol.

1.2. Nid yw'r trefniant hwn yn ffurfio rhan o gontract cyflogaeth cyflogeion. Gall y cynllun gael ei ddiwygio, ei dynnu'n ôl neu ei atal ar unrhyw adeg yn ôl disgresiwn y Cyngor.

## 2. CWMPAS

2.1. Mae'r cynllun hwn ar gael i bob gweithiwr, ac eithrio:

- Aelodau Etholedig
- Gweithwyr sydd ar gontract i weithio yn ystod y tymor yn unig
- Cyflogeion o dan delerau ac amodau athrawon neu sy'n talu i mewn i'r Cynllun Pensiwn Athrawon
- Cyflogeion Corff/Cyrff Llywodraethu ysgol
- Cyflogeion a gwmpesir gan drefniant sy'n bodoli eisoes ar gyfer gwyliau blynyddol, er enghraifft, o dan gytundeb TUPE
- Gweithwyr asiantaeth
- Cyflogeion lle y bydd didyniadau yn cymryd eu taliad misol islaw'r cyflog byw cenedlaethol ar gyfer eu horiau contract

## 3. CYMHWYSEDD

3.1. Yn amodol ar bwynt 2.1, mae'r cynllun hwn ar gael i holl gyflogeion y cyngor sydd wedi cwblhau 9 mis o wasanaeth parhaus ar adeg gwneud y cais.

3.2. Gall cyflogeion sydd ar gontract dros dro neu dros gyfnod penodol gael mynediad i'r cynllun, yn amodol ar bwyntiau 2.1 a 3.1. Bydd tâl am unrhyw wyliau blynyddol ychwanegol yn cael ei wneud mewn rhandaliadau misol, wedi'i wasgaru dros y cyfnod lleiaf o'r canlynol: hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol (31 Mawrth) neu'r misoedd sy'n weddill o'r contract dros dro.

## 4. EGWYDDORION ALLWEDDOL

4.1. Gall cyflogeion wneud cais i brynu 5 neu 10 diwrnod o wyliau blynyddol ychwanegol (pro rata ar gyfer gweithwyr rhan-amser) i'w defnyddio yn eu blwyddyn wyliau nesaf.

4.2. Bydd unrhyw wyliau blynyddol a brynir yn cael eu hychwanegu at falans gwyliau blynyddol y cyflogai a rhaid eu defnyddio cyn unrhyw wyliau blynyddol eraill. Rhaid i

geisiadau i gymryd gwyliau blynyddol gael eu hawdurdodi gan reolwr llinell y cyflogai yn y ffordd arferol.

4.3. 4.3. Bydd unrhyw gais i brynu 5 diwrnod o wyliau blynyddol (pro rata ar gyfer gweithwyr rhan-amser) yn amodol ar gymeradwyaeth y rheolwr (gwnaed diwygiad ar gyfer 2021/2022). Dylai'r gweithiwr gwblhau'r 'ffurflen gais ar gyfer y cynllun prynu gwyliau blynyddol' a chael llofnod ei reolwr llinell (er eu gwybodaeth), cyn ei hanfon at Adnoddau Dynol.

4.4. Mae ceisiadau i brynu 10 diwrnod o wyliau blynyddol (pro rata ar gyfer cyflogeion rhan-amser) i'w cymeradwyo yn ôl disgresiwn y rheolwr. Byddant yn cael eu hystyried yn dibynnu ar ofynion y swydd ac anghenion gweithredol y gwasanaeth.

4.5. Ar ôl i gais gael ei gymeradwyo, mae'n gytundeb rhwymol rhwng y Cyngor a'r cyflogai. Ni ellir gwerthu gwyliau a brynir yn ôl i'r Cyngor.

4.6. Drwy wneud cais i brynu gwyliau blynyddol, mae'r cyflogai'n cytuno i'r didyniadau cyflog gael eu gwneud mewn rhandaliadau misol hyd at 31 Mawrth ym mhob blwyddyn.

4.7. Wrth i gyflog misol y gweithiwr gael ei leihau, mae swm y dreth a'r yswiriant gwladol yn cael ei leihau hefyd. Gall hyn effeithio ar unrhyw daliadau statudol y gallai fod hawl ganddynt i'w cael o'r blaen. Bydd y gweithiwr yn gyfrifol am geisio cyngor ariannol annibynnol lle bo hynny'n briodol.

4.8. Bydd gwerth y didyniadau yn aros yr un fath dros y cyfnod heb ystyried unrhyw newidiadau i gyflog neu drefniadau cytundebol y gweithiwr.

4.9. Os bydd cyflogai yn mynd ar absenoldeb mamolaeth/tadolaeth/mabwysiadu neu absenoldeb salwch, mae'n dal i wneud didyniadau cyflog. Os yw cyflog misol y cyflogai yn llai na'r symiau talu statudol, yna mae'n bosibl y caiff didyniadau eu hatal a'u hadennill yn ddiweddarach.

4.10. Bydd cyflogeion sydd â blwyddyn wyliau flynyddol yn rhedeg o'r mis y mae eu pen-blwydd yn disgyn, yn newid i flwyddyn wyliau flynyddol o 01 Ebrill i 31 Mawrth er mwyn manteisio ar y cynllun hwn. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (2014) sy'n nodi bod yn rhaid cwblhau'r taliadau a'r ad-daliad o unrhyw ddidyniadau o'r tâl o fewn yr un flwyddyn ariannol. Cyfrifir y pro rata priodol ar gyfer gwyliau blynyddol i hwyluso'r newid hwn.

## 5. APELIO

5.1. Os gwrthodir cais a bod y cyflogai yn anfodlon â'r penderfyniad, dylai'r cyflogai hysbysu ei reolwr llinell, yn ysgrifenedig o fewn pum diwrnod gwaith, o'i ddymuniad i apelio yn erbyn y penderfyniad. Bydd eu rheolwr llinell yn cydnabod ei fod wedi'i dderbyn ac yn cyfeirio'r apêl at ei brif swyddog (Pennaeth y Gwasanaeth/Rheolwr Gweithredol), nad oedd yn rhan o'r penderfyniad cychwynnol cyn hynny. Bydd y Prif Swyddog sy'n penderfynu ar yr apêl yn ystyried dogfennau blaenorol ac yn cyfarfod â'r cyflogai os oes angen.

5.2. Bydd penderfyniad y Prif Swyddog sy'n penderfynu'r apêl yn cael ei roi yn ysgrifenedig a bydd copi o benderfyniad yr apêl yn cael ei anfon at y Pennaeth Adnoddau Dynol.

5.3. Ni fydd unrhyw hawl apelio pellach.

## 6. GOBLYGIADAU PENSIWN

6.1. At ddibenion pensiwn, bydd unrhyw wyliau blynyddol ychwanegol a brynir yn cael eu dosbarthu fel cyfnod o 'absenoldeb awdurdodedig heb dâl'. Felly, ni thelir cyfraniadau pensiwn gan y cyflogai a'r Cyngor yn awtomatig.

6.2. Os yw'r cyflogai yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, gall ddewis "prynu'n ôl" unrhyw gyfraniadau pensiwn coll fel cyfandaliad drwy Gyfraniadau Pensiwn Ychwanegol. Rhaid gwneud hyn o fewn 30 diwrnod ar ôl i gais y cyflogai gael ei gymeradwyo.

6.3. Os yw'r cyflogai yn dewis "prynu'n ôl" unrhyw bensiwn a gollwyd ar ôl i 30 diwrnod o'r cais gael ei gymeradwyo, nid oes rheidrwydd ar y Cyngor i dalu costau cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a bydd y cyflogai yn atebol am y swm llawn.

6.4. Ceir rhagor o wybodaeth ar www.lgps2014.org/, ynghyd â chyfrifiannell, ffurflen i lawrlwytho, llofnodi ac anfon at Wasanaethau Gweithwyr – Tîm y Gyflogres i gyfarwyddo'r ad-daliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i'w gweinyddu gan Gronfa Bensiwn Caerdydd a'r Fro.

## 7. GADAEL Y CYNGOR

7.1. Bydd costau'r gweithwyr sy'n gadael y Cyngor yn cael eu hadennill yn llawn ar ôl talu eu cyflog olaf.

## 8. MONITRO AC ADOLYGU

8.1. Bydd y cynllun yn cael ei adolygu ym mis Rhagfyr bob blwyddyn i benderfynu a ddylid ymestyn, dileu neu newid yr opsiwn hwn ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

## 9. GWYBODAETH YCHWANEGOL

9.1. Mae rhagor o wybodaeth ar gael fel a ganlyn:

- Swyddog Adnoddau Dynol (gweler StaffNet am fanylion)
- Rheolwr / Goruchwyliwr
- Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg (Rhif Ffôn 02920 872330)
- Cynrychiolydd Undeb Llafur lleol

| Cabinet | Dyddiad gweithredu | Dyddiad adolygu | Adran |
|---|---|---|---|
| 23 Mawrth 2015 | Ebrill 2015 | Rhagfyr 2016 | Adran AD |